**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

583/51

# CYMRAEG – IAITH GYNTAF CY3
## *(FIRST LANGUAGE)*

DEFNYDDIO'R IAITH A BARDDONIAETH

*(Arholiad Ysgrifenedig)*

P.M. DYDD LLUN, 22 Mai 2006

(2 AWR)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **ddau** gwestiwn - Adran A ac Adran B.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Mae angen i chi ysgrifennu Cymraeg da a chywir a chyflwyno'ch atebion yn drefnus.

Awgrymir eich bod yn treulio ¾ awr ar Adran A ac 1¼ awr ar Adran B.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich traethawd yn Adran B.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

## ADRAN A

### Defnyddio Iaith

**1.** Atebwch **bob** rhan o'r cwestiwn hwn. Cewch eich gwobrwyo am greu brawddegau sy'n ieithyddol gywir.

*(a)* Defnyddiwch y canlynol mewn brawddegau gwreiddiol, un ymhob brawddeg, i ddangos yn eglur eu hystyron a'u defnydd: [5 × 2 = 10]

cerddwn i
gellir
eisteddwn ni
i mi glywed
nerth fy nhraed

*(b)* Mae **dau** wall ymhob un o'r brawddegau isod. **Lluniwch dair colofn**: yn y gyntaf nodwch y camgymeriad, yn yr ail cywirwch ef, ac yn y drydedd nodwch eich rheswm dros gywiro. [10 × 2 = 20]

(i) Mae'r linell gyntaf yn cyfleu'r ffaith bod y bardd ddim yn mwynhau byd natur.

(ii) Mae dad fi'n hen ŵr bellach ac mae'n gorfod mynd i'r meddyg yn aml.

(iii) Os byddai wedi clywed am ei phroblemau hi'n gynt bydd ef wedi ymweld â'i ferch.

(iv) Gawsom ni wersi ardderchog oddi wrth yr athrawes Saesneg eleni.

(v) Tybed a ydy eu rhieni hi wedi gwneud eu meddwl i fyny i agor siop.

*(c)* (i) Cywirwch yr ymadroddion isod. [5]

(ii) Defnyddiwch y ffurfiau cywir mewn brawddegau, un ymhob brawddeg, i ddangos yn eglur eu hystyron a'u defnydd. [5]

yn ofn ti
heb nhw
yn gwahanol lyfrau
am maent hwy
pris wedi mynd i fyny

## ADRAN B

## Barddoniaeth

**2.** Ysgrifennwch draethawd ar **un** o'r canlynol.

*Wrth ateb, cofiwch*
- *ddefnyddio dyfyniadau a thermau beirniadaeth lenyddol;*
- *cymharu gweithiau'r beirdd lle bo'n briodol.*

**Naill ai**

*(a)* Trafodwch **dair cerdd** gan **dri bardd gwahanol** a roddodd fwynhad i chi wrth eu hastudio. Rhowch resymau pam y maen nhw'n apelio gan gyfeirio at y **themâu** a drafodir ynddynt ac at **arddull** y cerddi. [80]

**Neu**

*(b)* Trafodwch yr elfennau sy'n **debyg ac yn wahanol** o ran **cynnwys ac arddull** yn y cerddi a astudiwyd gennych o waith Meirion MacIntyre Huws a Twm Morys. [80]